# ATODIAD 2
# (Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd)

## Mesuryddion Gwasanaethau'r Adran Amgylchedd

Gwaith dydd i ddydd yr Adran

# Cyfeirnodau y mesurau perfformiad

| Gwastraff & Ailgylchu | |
|---|---|
| G&A1 | Perfformiad Ailgylchu Gwynedd |
| G&A2 | Tunelli Gwastraff Gweddilliol |
| G&A3 | Ymholiadau Methu Casgliadau |
| G&A4 | Ystadegau Salwch |
| **Gwarchod y Cyhoedd – Safonau Masnach a Thrwyddedu** | |
| SM1 | Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen |
| SM2 | Nifer achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys |
| SM3 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi |
| **Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd yr Amgylchedd** | |
| IA1 | Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch) |
| IA2(a)<br>IA2(b) | Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig<br>Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig |
| IA3 | Nifer eiddo preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn |
| **Cynllunio** | |
| C1 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio |
| C2 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth |
| C3 | Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau |
| **Polisi Cynllunio** | |
| PC1 | Canran o ymatebion ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser. |

| Rheolaeth Adeiladu | |
|---|---|
| RH1 | Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos] |
| RH2 | Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored |
| RH3 | Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle |
| **Parcio a Gwaith Stryd** | |
| P&GS1 | Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon |
| P&GS2 | Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus |
| P&GS3 | Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd |
| P&GS4 | Nifer y gweithiau gan ymgymerwyr statudol sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol |
| **Traffig, Prosiectau a Llwybrau** | |
| T&P1 | Nifer o ymholiadau am welliannau sydd wedi derbyn ymateb |
| T&P2 | Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir |
| **Trafnidiaeth Cyhoeddus** | |
| TC1 | Canran o siwrneiau bwys lleol sydd yn cyrraedd ar amser |
| TC2 | Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu |
| **Busnes – Swyddfa Cefn** | |
| B1 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir |
| B2 | Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb |
| **Monitro Cyllid** | |
| MC | Cyfanswm Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus |
| **Hyfforddiant Mandadol** | |
| HD | Perfformiad Hyfforddiant Diogelu |


# Gwastraff ac Ailgylchu


## G&A1 - Perfformiad Ailgylchu Gwynedd

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cynnal ymgyrchoedd lleol a traws-sirol i hyrwyddo, addysgu a helpu trigolion i leihau'r gwastraff a gynhyrchir gan annog mwy o ailgylchu

**Sylwadau**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus yn cyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru yn flynyddol hyd at 2023–24. Fodd bynnag, yn ystod 2024–25, codwyd y targed statudol o 64% i 70%, gan gyflwyno her sylweddol i'r Cyngor. Roedd canran ailgylchu Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn yn 65.3%, sy'n golygu bod risg o gosb ariannol gan y Llywodraeth. Er nad yw'r cynlluniau terfynol wedi'u mabwysiadu eto, mae'r Cyngor wedi llunio Strategaeth Wastraff, sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o gynigion i gynyddu'r gyfradd ailgylchu, gan gynnwys adolygu amlder casgliadau gwastraff, a chryfhau addysg ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r tîm yn weithgar wrth gynnal ymgyrchoedd mewn amryw o ardaloedd ac ysgolion, ac yn cyfrannu at ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo ailgylchu, yn ogystal â gweithgareddau sy'n cefnogi trigolion i ailgylchu'n fwy effeithiol. Er bod y tîm yn gyfyngedig o ran adnoddau — gyda dim ond pedwar aelod o staff — mae trafodaethau ar y gweill i archwilio cyfleoedd i gryfhau eu heffaith drwy gydweithio ag asiantaethau partner megis Adra, ac i ystyried sut y gallai pwerau gorfodi ychwanegol gefnogi ac atgyfnerthu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.




# Gwastraff ac Ailgylchu

## G&A2 - Tunelli Gwastraff Gweddilliol

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Lleihau'r gwastraff gweddilliol a gesglir gan uchafu ar ddeunyddiau i'w ailgylchu / ail-ddefnyddio. Drwy hyn, cyflwyno gwasanaeth casglu dibynnol a thaclus

### Sylwadau

Adroddir ar gyfanswm y gwastraff gweddilliol a gesglir ac a gaiff ei anfon i safle Ynni o Wastraff Parc Adfer. Mae'n hanfodol parhau i annog ac addysgu trigolion Gwynedd i leihau lefelau gwastraff gweddilliol, gan fod gormod o ddeunyddiau ailgylchadwy yn parhau i ymddangos yn y ffrwd hon. Mae lleihau cynnwys y bin gwyrdd yn gam strategol tuag at gyrraedd y targed ailgylchu statudol, lleihau'r gost sy'n gysylltiedig â'r dreth garbon a gaiff ei chyflwyno yn 2028, ac yn cynnig cyfle i ailystyried amlder casgliadau mewn modd realistig. Dengys y llinell duedd nad oes disgwyl newid sylweddol yn y tunelledd o wastraff a gludir i Barc Adfer eleni o Wynedd. Er mai lleihau'r gwastraff a anfonir i Parc Adfer yw'r nod strategol, mae'n hanfodol ein bod yn deall y data yn fanwl ac yn asesu'r effaith ar ganran ailgylchu (G&A1). Er mwyn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%, bydd angen newid sylweddol: gostyngiad o tua 12% yn y gwastraff gweddilliol, ynghyd â chynnydd o 12% yn y gyfradd ailgylchu. Mae rhai cynlluniau ar y gweill i leihau rhai ffrydiau gwastraff, gan gynnwys agor bagiau duon yn y Canolfannau Ailgylchu – cam a fydd yn cael ei weithredu ym mis Hydref. Fodd bynnag, bydd angen ystyried camau pellach, megis lleihau capasiti'r bin gwyrdd a chynyddu cyfran y busnesau sy'n cymryd rhan mewn ailgylchu. Rhaid cydnabod hefyd fod rhai agweddau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, megis cynnwys biniau stryd.




**Mae pob cartref yng Ngwynedd yn cynhyrchu** **260kg** **o wastraff gweddilliol pob blwyddyn**




# Gwastraff ac Ailgylchu

## G&A3 - Ymholiadau 'Methu Casgliadau'

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Casglu gwastraff ac ailgylchu o 64,000 o gartrefi'r sir yn unol â'r amserlen sydd wedi ei gytuno

**Sylwadau**

Yn ystod y cyfnod rhwng 2023–24 a 2024–25, gwelwyd gostyngiad sylweddol o dros 8,200 o gwynion – cyfwerth â 44%. Yn ychwanegol, mae data ar gyfer pum mis cyntaf o 2025–26 yn dangos lleihad pellach o 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae dadansoddiad ystadegol yn awgrymu y gallai nifer yr ymholiadau ostwng i tua 500 y mis cyn diwedd y flwyddyn, sy'n adlewyrchu gwelliant parhaus yn y gwasanaeth. Mae system newydd sydd wedi ei fabwysiadu yn cynnig y gallu i fonitro mwy manwl o fethiant casgliadau gwirioneddol yn erbyn achosion lle nad yw'r bin wedi'i roi allan gan drigolion; dadansoddiad cwynion yn ôl math, gan alluogi defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) i ymateb yn effeithlon i rai mathau o gwynion. Rydym yn hyderus y bydd y camau hyn yn galluogi gostyngiad pellach yn nifer y cwynion, gan osgoi sefydlogrwydd ar y lefel bresennol ('plateau') a chynnal gwelliant parhaus yn ansawdd y gwasanaeth.




# Gwastraff ac Ailgylchu


## G&A4 - Canran cyfartalog salwch

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Casglu gwastraff ac ailgylchu o 64,000 o gartrefi'r sir yn unol â'r amserlen sydd wedi ei gytuno

**Sylwadau**

Mae'r mesur yn amlygu'r canrannau salwch ymysg staff casglu gwastraff. Wrth reoli salwch yn effeithiol, ceir cyfle i wella perfformiad, lleihau achosion o fethu casgliadau, a rheoli costau - sef un o brif amcanion yr Adran wrth geisio gwella ansawdd y gwasanaeth. Dylid nodi bod natur y gwaith yn gorfforol iawn, ac o ganlyniad, mae'r trothwy ar gyfer bod yn "ffit i weithio" yn uwch na'r hyn a geir mewn meysydd gwaith eraill o fewn y Cyngor. Yn sgil hyn, mae camau cadarnhaol wedi'u cymryd i ymgorffori trefniadau'r polisi absenoldeb corfforaethol, gan gynnwys darparu hyfforddiant pwrpasol i arweinwyr tîm er mwyn eu grymuso i fynd i'r afael â lefelau salwch uchel. Er bod pob ystadegyn salwch yn cynrychioli stori bersonol unigol, mae'n hanfodol dangos bod yr Adran yn gweithredu'n rhagweithiol i gefnogi lles ei staff, tra'n cynnal safonau'r gwasanaeth. Mae'r lefelau salwch erbyn mis Awst yn y ddwy ardal yn galonogol iawn. Mae rhan fwyaf o achosion salwch yn rhai tymor byr, ac o ystyried nad oes gan y staff yma yr un opsiynau â staff swyddfa i weithio o gartref mewn achosion o salwch ysgafn (e.e. annwyd), mae'r effaith ar gofnodion salwch yn fwy amlwg. Ar hyn o bryd, dim ond tri aelod o staff sydd ar absenoldeb hirdymor. Yn drist, nodir na fydd dau ohonynt yn dychwelyd i'w swyddi, tra bod y trydydd yn gobeithio dychwelyd i ddyletswyddau llai corfforol yn fuan.




# Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu


## SM1 - Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

**Sylwadau**

Mae 56 eiddo categori 'risg uchel' wedi cael ei adnabod ar draws y gwasanaeth ar gyfer 2025-26. Mae'r rhain yn eiddo/fusnesau sydd yn cael eu hadnabod fel risg uchel oherwydd cymhlethdod/risg gweithgaredd busnes, neu fod hanes a phryder o ddiffyg cydymffurfiaeth a Rheoliadau Safonau Masnach dros gyfnod o amser. Mi fydd y canran o archwiliadau sydd yn cael ei cwblhau yn isel hyd nes mis Hydref gan nad oes pwrpas archwilio'r 19 eiddo sydd yn cael eu trwyddedu i storio tân gwyllt nes byddent yn derbyn y stoc ac yn storio'r tân gwyllt ar yr eiddo. Mae'r 37 eiddo sydd yn weddill yn disgyn i'r tim Iechyd Anifeiliiad, ac felly yn archwiliadau fferm. Mi fydd sawl archwiliad fferm yn cael ei ddal nol hyd nes bod yr anifeiliaid yn cael eu casglu fewn oddi ar y tir – mae hyn yn ein galluogi i gael golwg manwl ar y stoc a sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer yr anifeiliaid – bydd cynnydd ym mhatrwm nifer archwiliadau o mis Hydref/Tachwedd ymlaen.







# Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

## SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

## SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â’r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

**Sylwadau**

Mae achosion o dor-cyfraith troseddol yn cael eu hadnabod drwy gyfuniad o adroddiadau/pryderon/cwynion sy’n dod i sylw’r gwasanaeth gan aelodau’r cyhoedd a busnesau, yn ogystal â gwaith rhagweithiol mae’r gwasanaeth yn ei adnabod fel rhan o archwiliadau i fusnesau. Mae’r mesur yn ogystal yn ystyried y cyfanswm ôl-groniad o ddiffyg cydymffurfiaeth sydd yn parhau yn agored ers i’r mesur ddod yn weithredol (01/04/2024), ac mae’r gwasanaeth yn gweithio arnynt i geisio datrys.

Mae tor-cyfraith troseddol yn cael ei ystyried fel 'torri unrhyw ddeddfwriaeth droseddol y mae Swyddogion Safonau Masnach Gwynedd wedi eu hawdurdodi i orfodi'. Nid yw hyn yn cynnwys materion tor-cyfraith sifil.

Ers mis Ebrill, mae'r tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi bod yn parhau â'r gwaith o ymateb i geisiadau am wasanaeth yn ymwneud â materion iechyd a lles anifeiliaid ynghyd â chynnal archwiliadau rhaglenedig i ganolfannau casglu, marchnadoedd da byw ac archwiliadau rhaglenedig yn ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd amaeth. Yn dilyn ymchwiliad i achos o esgeulustod, bu i ffermwr bledio'n euog i gyhuddiadau yn ymwneud â Iechyd a Lles Anifeiliaid yn Llys Ynadon Caernarfon ym mis Awst 2025. Oherwydd difrifoldeb yr troseddu, mae'r achos wedi cael ei gyfeirio i Llys y Goron ar gyfer dedfrydu (Hydref ’25).

Mae’r tîm Gwarchod Defnyddwyr yn parhau i flaenoriaethu gwaith drwy ymateb i gudd-wybodaeth yn ymwneud â gwerthiant nwyddau anghyfreithlon ar draws y sir - yn bennaf tobacco ac e-sigarets. Ond yn ystod yr haf bu rhaid i'r swyddogion ymateb ar frys yn derbyn dilyn sawl cudd-wybodaeth yn ymwneud â doliau 'labwbw' ffug yn cael ei gwerthu mewn sawl siop yn y Sir. Bu i'r tîm atafael 439 o'r doliau hyn gan fod peryglon amlwg fod y doliau yn cynnwys darnau bach oedd yn dod yn rhydd yn rhwydd, a gallai greu niwed i blentyn. Cafodd pryderon efo'r doliau hyn eu hamlygu i'r cyhoedd drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Yn ogystal mae'r tîm wedi parhau â'r gwaith aml-asiantaeth sydd wedi bod yn mynd yn ei flaen ym Mangor (yn cael ei arwain gan yr Heddlu) - yn bennaf yn cynnal archwiliadau ar y cyd i siopau sydd wedi cael eu hadnabod fel bod yn gysylltiedig â phroblemau gwrth-gymdeithasol yn y ddinas, gyda'r bwriad o atafaelu nwyddau anghyfreithlon sy’n disgyn o fewn ein maes gwaith.


# Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

## SM3 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud a thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau.

### Sylwadau

Mae'r nifer o geisiadau mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn, a'r cyfartaledd dyddiad prosesu ers mis Ebrill yn eithaf cyson, ac yn cydfynd hefo data a phatrwm ffigyrau hanesyddol. Noder fodd bynnag fod y nifer o geisiadau ym mis Awst wedi gostwng tra fod cyfartaledd dyddiau prosesu wedi cynyddu. Fel eglurhad, mae'r gwaith o brosesu ceisiadau digwyddiadau dros-dro yn cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, ond hefyd mae un aelod o'r tîm wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am gyfnod hefo salwch.



# Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

## IA1- Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch)

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr, defnyddwyr a chwsmeriaid  a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

**Sylwadau**

Ar 31/8/25, roedd 2,092 o fusnesau bwyd wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd. O'r rhain roedd 2,064 (98.66%) yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch a 28 ddim yn cwrdd â'r safon (1.34%).
Dylai fod pob eiddo sydd ddim yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol yn derbyn ail-ymweliad o fewn 3 mis o'r archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella.
Er mwyn tynnu sylw at y maes yma ac i annog y cyhoedd i wirio sgoriau busnesau mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol dan arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
Gellir gweld sgor hylendid bwyd busnesau bwyd Gwynedd drwy ddilyn y linc: https://ratings.foof.gov.uk/cy/search-a-local-authority-area

**Canran busnesau bwyd gyda sgôr o 3 neu uwch**


**99%**


# Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

## IA2(a) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

## IA2(a) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

**Sylwadau**

Mae newidiadau sylweddol wedi bod yn nhrefniadau'r gwasanaeth dros y dair blynedd diwethaf. Fe fu i un swydd gael ei dorri o'r strwythur yn 2024, mae nifer o swyddogion profiadol wedi gadael a bu newidiadau yn strwythur rheolaethol gwasanaethau gwarchod y cyhoedd ddechrau 2025. Golyga hyn nad ydym yn medru cyflawni ein rhaglen archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â'r gofynion. Rydym wedi bod ac yn parhau i flaenoriaethu archwiliadau busnesau bwyd risg uchel / uwch a busnesau newydd.
Nodir fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cynnal archwiliad o'r Gwasanaeth Bwyd yn ystod Hydref 2024, ac wedi codi pryderon ynglŷn a'r diffyg adnoddau a ddarperir ar gyfer y gwaith. O ganlyniad, mae'r ASB yn datgan nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol o ran amlder archwiliadau safonau bwyd a hylendid bwyd (gweler B&D2(B). I gyfarch hyn mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi yn y gweithlu drwy drefnu fod 3 swyddog di-brofiad yn eistedd cymhwyster fydd yn eu galluogi i gwblhau dyletswyddau statudol. Rydym hefyd wedi manteisio ar 'Gynllun Yfory' y Cyngor a phenodi hyfforddai gwarchod y cyhoedd. Yn ogystal, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o fabwysiadu trefniadau mwy effeithiol o weithio, er enghraifft, defnydd offer cofnodi gwaith allan yn y maes (tabledi, ffonau symudol).

# Gwarchod y Cyhoedd -Iechyd yr Amgylchedd


## IA2(b) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.


### Sylwadau

Mae'r sylwadau a nodir yn B & D2 (a) yn berthnasol i'r mesur yma hefyd. Er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o amser swyddogion rydym yn ymdrechu i gynnal archwiliadau hylendid a safonau bwyd yr un adeg. Bydd swyddogion yn dilyn y rhaglen hylendid bwyd ac yn cwblhau archwiliad safonau bwyd os oes un wedi ei raglennu oddi fewn y 12 mis nesaf neu heb ei gyflawni yn flaenorol. Oherwydd diffyg argaeledd staff cymwysedig rydym wedi penderfynu mai ffocws ein ymdrech archwilio dros 2025-26 fydd eiddo bwyd risg hylendid uchel (A-C), busnesau newydd a eiddo safonau bwyd risg uchel (A). Ond, mae gofyn ar staff eleni i gyflawni dyletswyddau ychwanegol, (trwyddedu triniaethau arbennig - gweithgareddau pigo croen, tatŵio, pigo clustiau ayb,). O'r herwydd nid ydym wedi medru cynnal nifer sylweddol o archwiliadau risg uchel yn amserol. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd 87 eiddo bwyd risg uchel hylendid (A-C) heb dderbyn archwiliad. Bydd rhain yn derbyn blaenoriaeth yn ystod chwarter 3 a 4. Ni fyddwn yn cwrdd a'n targedau archwiliadau diogelwch bwyd eleni.

### Archwiliadau Hylendid Bwyd Ebrill 2025 - Awst 2025




### Arolygiadau wedi eu cwblhau yn erbyn y rhaglen Ebrill 2025 - Awst 2025





# Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

## IA3 - Nifer eiddo ar ddŵr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

## IA3 - Canran o eiddo sydd ar gyflenwad dwr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dwr ac asesiadau risg yn unol a'r amserlen rhaglenedig

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

**Sylwadau**

Mae'r gwaith yn statudol er mwyn sicrwydd diogelwch dŵr yfed mewn cyflenwadau gwledig o ffynhonnell breifat. Rydym yn adrodd fesul 12 mis calendr i'r 'Drinking Water Inspectorate' sydd yn rheoleiddio a gwirio gwaith Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau fod cyflenwadau preifat busnesau megis llety gwyliau a gwestai yn darparu dŵr glan diogel i'w cwsmeriaid a staff. Mae ceisiadau rheolaidd hefyd yn dod i samplo cyflenwadau dŵr domestig unigol, ac mae hyn yn ychwanegol i'r llwyth gwaith a adroddir arno, amcangyfrif fod tua 2,000 o gyflenwadau preifat domestig unigol.


Mae’r rhaglen samplo ac asesu risg yn un statudol, tra llwyddir i gynnal y rhan fwyaf o'r samplau ar y rhaglen 12 mis, rydym yn tanberfformio yn sylweddol ar gynnal yr Asesiadau Risg, sydd angen eu cynnal bob 5 mlynedd. Mae swyddogion o'r tîm bwyd ac iechyd a diogelwch wedi bod yn cyfrannu at y gwaith rhaglen samplo dros dro. Ddiwedd Awst roedd ol groniad o 40 sampl dwr a 295 asesaid risg yn ddyledus. Rydym am ddargyfeirio swyddogion o waith samplu i gyflawni asesaidau risg dros y misoedd nesaf.

# Cynllunio

## C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Cynllunio

## C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

**Sylwadau**


Yn y cyfnod diweddaraf (Ebrill 2025 i ddiwedd Awst 2025), derbyniwyd 361 o geisiadau newydd a phenderfynwyd 402 o geisiadau. Mae'r nifer yma yn debyg iawn i'r hyn adroddwyd ar gyfartaledd yn y cyfnod blaenorol, ac felly mae'r cynnydd adroddwyd ynghynt wedi ei leihau ac mae'n ymddangos mai cyfnod o bedwar mis yn unig oedd hynny.
Mae'r nifer o geisiadau sydd yn y system heb benderfyniad o gwmpas 498, sydd wedi lleihau eto o'r 515 a adroddwyd yn flaenorol.
Mae'r amser penderfynu ceisiadau ar gyfartaledd dros y cyfnod yma wedi cynyddu i 124 diwrnod (109 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol). Nodir fod 6 cais wedi eu penderfynu yn y cyfnod yma (sy'n cynnwys 2 gais o'r Pwyllgor mis Mehefin) oedd yn sefyll heb benderfyniad oherwydd diffyg gwybodaeth ac ymateb ac fod dyddiau penderfynu'r ceisiadau yma dros 800 diwrnod sy'n cael effaith sylweddol ar y ffigwr yma. O hepgor y 6 chais yma, byddai'r cyfartaledd amser penderfynu yn gostwng i 105 diwrnod.
Er hyn roedd 80% o benderfyniadau o fewn yr amser statudol (sef unai o dan 56 diwrnod neu gydag estyniad amser wedi ei gytuno) sydd yn gyson gyda'r hyn adroddwyd yn flaenorol. Mae hyn yn amlygu fod nifer uchel o benderfyniadau yn cael eu gwneud yn amserol, neu gyda cytundeb o estyniad amser gyda'r ymgeisydd/asiant.


# Cynllunio

## C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Cynllunio

## C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth

**Sylwadau**

Yn y cyfnod yma, derbyniwyd 357 o ymholiadau a cheisiadau am gyngor ymlaen llaw a chafodd 546 o achosion eu cau (unai oherwydd nad oeddynt yn ddilys neu roedd ymateb wedi ei ddarparu). Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod blaenorol, mae i weld fod y llwyth gwaith wedi cynyddu dros y cyfnod yma, ond yn eithaf sefydlog o gymharu gyda'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

Mae’r nifer o ymholiadau sy’n agored yn 83, sydd ychydig yn fwy na'r 68 a adroddwyd yn y cyfnod blaenorol.

Dros y cyfnod yma, roedd y cyfartaledd diwrnodau i ymateb wedi lleihau o 41 i 28 diwrnod ond gan ystyried fod y cynnydd yn nifer o geisiadau yn flaenorol wedi lleihau dros y ddau gyfnod diwethaf, ystyrir fod y cyfartaledd yn fwy sefydlog erbyn hyn.


Mae i weld fod y nifer o e-byst Erthygl 4 a dderbyniwyd wedi codi dros y cyfnod yma. Derbyniwyd 55 ymholiad ffurfiol, gyda 13 ohonynt yn geisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais ffurfiol. Ar gyfartaledd mae’r amser i ymateb yn 21 diwrnod, sydd yn dangos lefel o wasanaeth da a fod yn tîm yn parhau i ymdopi â’r llwyth gwaith.

# Cynllunio

## C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Cynllunio

## C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

**Sylwadau**

Agorwyd 137 o gwynion newydd a chaewyd 57 o achosion. Mae'r nifer o achosion agored wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynnydd yn y nifer o gwynion newydd sydd wedi eu derbyn ac efo'r trefniadau ac adnoddau presennol, mae'r nifer o achosion sy'n gallu cael eu cau pob mis ar gyfartaledd wedi disgyn ychydig dros 10. Mae hyn o ganlyniad i newidiadau mewnol i staff a penodi'r Swyddog sy'n delio ag achosion Gorfodaeth i Uwch Swyddog Erthygl 4. Er fod y Swyddog yn parhau o fewn y Tim Gorfodaeth, mae wedi bod yn arwain ar achosion newydd sy'n berthnasol i Erthygl 4 sy'n cymeryd mwy o amser ar hyn o bryd. Mae hyn yn amlygu fod angen sicrhau nad yw'r sefyllfa ble mae achosion agored yn cynyddu y parhau, ac fod angen edrych ar drefniant gweinyddu achosion newydd i sicrhau ond y rhai sydd angen gweithrediad pellach sydd yn parhau yn agored. Mae posib byddai archwilio i mewn i ddefnydd o A I ar gyfer gweinyddu, trefnu a blaenoriaethu achosion fod o fudd.
Erlynwyd 1 achos o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda rhybudd Adran 215 (tir blêr) yn llwyddiannus yn y llysoedd ers yr adroddiad blaenorol.
Cyhoeddwyd 1 rhybudd gorfodaeth ac mae'r tîm yn parhau yn y broses o ddelio gyda 6 apêl cynllunio yn erbyn rhybuddion cynllunio. Mae nifer o rybuddion tramgwydd cynllunio ac Adran 330 wedi eu cyflwyno lle mae ymchwiliadau yn parhau.
Mae'r gwaith o reoli a monitro arwyddion di-ganiatad / goleuedig yn ein prif ganolfannau yn parhau, er nad oes unrhyw achos pellach wedi ei ddatrys yn y cyfnod yma.
Mae gan y tîm Erthygl 4, 16 achos yn agored sydd yn llai na'r 21 adroddwyd yn flaenorol. Mae 3 achos wedi cael eu cau ac agorwyd 7 achos newydd. Mae yn dangos cynnydd bach yn y nifer o achosion newydd sy'n berthnasol i Erthygl 4 ers y flwyddyn newydd. Mae rhybudd Adran 330 wedi mynd allan i un eiddo arall a 2 Hysbysiad Torri Rheolau Cynllunio (PCN). Bydd angen disgwyl canlyniad a chynnwys y rhybuddion Adran 330 a Hysbysebion Torri Rheolau Cynllunio cyn penderfynu ar y camau nesaf.


# Polisi Cynllunio

## PC1 - Canran o ymatebion i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

### Sylwadau

O'r 92 ymgynghoriad ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais eleni, cyflwynwyd 84 ohonynt o fewn amser (91%). Mae hynny islaw y cyfartaledd ar gyfer llynedd (93%). Pwysleisir fod yr ymatebion oedd y tu hwnt i'r amserlen yn bennaf oherwydd pwysau gwaith arall yn cynnwys y gwaith ynghlwm a'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a gwaith yn ymwneud â chadarnhau a gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Dylid nodi nad yw'r ffigurau o reidrwydd yn portreadu'r darlun cyflawn bob amser, gall rhai ceisiadau tra 'wedi'u cwblhau' at ddibenion y dangosydd hwn (gan fod cyngor polisi cynllunio wedi'i ddarparu) arwain at drafodaethau hir a pharhaus gan eu bod yn geisiadau cymhleth sy'n gofyn am fynd i fewnbwn polisi dros gyfnod o amser.




# Rheolaeth Adeiladu

## RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Rheolaeth Adeiladu

## RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

**Sylwadau**

Nod y Gwasanaeth yw cwrdd â'r dyddiadau cau statudol a chyflawni'r targed gofynnol ar gyfer pob cais. Mae'r cyfnod diweddaraf wedi dangos perfformiad da o ran penderfyniadau a wneir ar geisiadau o fewn yr amserlenni statudol.
Yn dilyn cyflwyno Deddf Diogelwch Adeiladu 2022, mae gan y gwasanaeth gynlluniau hyfforddi ar gyfer 2025/26 i weithredu ar ofynion cymhwysedd statudol Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a'r Arolygwyr Preifat Cymeradwy, lle mae angen i swyddogion gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu fel 'Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig'. Mae hyn yn fygythiad i'r gwasanaeth a'r Cyngor, gan fod yn rhaid i swyddogion fod yn gymwys ac wedi'u cofrestru i allu ymarfer yn y sector ac mae hefyd yn dibynnu ar y dosbarth adeilad y mae cofrestru yn berthnasol iddo (domestig, masnachol, risg uchel). Bydd cyfrifoldebau statudol a safonau perfformiad ychwanegol i'w cyflawni hefyd sy'n her i'r Gwasanaeth a'r Cyngor, lle bydd y Cyngor yn cael ei archwilio gan Lywodraeth Cymru/Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu i sicrhau bod Gwasanaeth Rheoli Adeiladau'r Cyngor yn perfformio i'r safonau gofynnol. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar swyddogion y Gwasanaeth sydd wedi bod angen cofrestru a phasio arholiadau perthnasol fel bod ganddynt hawl gyfreithiol i wneud eu gwaith dydd i ddydd ers 1 Hydref 2024. Mae gan y gwasanaeth Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig Dosbarth 2A-F (Masnachol a Domestig), a 3 Arolygydd Adeiladu Cofrestredig dan Hyfforddiant. Mae trefniadau cymorth a hyfforddi, gan gynnwys cynllun y gweithlu ar gyfer y tîm, ar waith, i symud gweddill y staff i gofrestru i'r lefel a'r cymhwysedd angenrheidiol. Bydd angen i swyddogion nad ydynt yn dal y cofrestriad gofynnol gael eu goruchwylio gan Swyddogion sy'n dal y cofrestriad dosbarth perthnasol a bydd hyn yn gosod cyfrifoldebau a dyletswyddau cyfreithiol ychwanegol. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru, mewn perthynas â diogelwch adeiladu a Gwasanaethau Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol yng Nghymru, 'Cracks in the Foundations' - Building Safety in Wales. Mae 4 argymhelliad ar gyfer Awdurdodau Lleol, ac mae angen ymateb ar sut mae'r Cynghorau yn bwriadu gweithredu/bodloni'r argymhellion hyn i wella'r Gwasanaethau Rheoli Adeiladu o ran bodloni gofynion y Ddeddf Diogelwch Adeiladu a safonau perfformiad statudol. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ac mae cefnogaeth, arweiniad a chydweithrediad yn cael ei ddarparu gan LABC ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru. Yn dilyn adroddiad terfynol ymchwiliad Grenfell a gyhoeddwyd ar 4 Medi 2024, gwnaed yr argymhellion canlynol yn y crynodeb gweithredol mewn perthynas â Rheoli Adeiladu. "Roedd cystadleuaeth am waith rhwng arolygwyr cymeradwy ac adrannau rheoli adeiladu awdurdodau lleol yn cyflwyno gwrthdaro buddiannau tebyg sy'n effeithio arnynt. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, bydd gwrthdaro buddiannau sylfaenol yn parhau i fodoli ac yn parhau i fygwth uniondeb y system. Felly, rydym yn argymell bod y llywodraeth yn penodi panel annibynnol i ystyried a yw er budd y cyhoedd i swyddogaethau rheoli adeiladu gael eu cyflawni gan y rhai sydd â diddordeb masnachol yn y broses." Mae'r diffygion yr ydym wedi'u nodi mewn rheoli adeiladau awdurdodau lleol yn awgrymu y dylid arfer yr holl swyddogaethau rheoli adeiladau, gan gynnwys y rhai a gyflawnir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol, yn genedlaethol. Yn unol â hynny, rydym yn argymell bod yr un panel yn ystyried a ddylai awdurdod cenedlaethol gyflawni pob swyddogaeth rheoli adeiladu." Bydd y gwasanaeth a'r Adran yn monitro'r datblygiadau hyn ac yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru drwy LABC Cymru.


# Rheolaeth Adeiladu

## RH2 - Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

**Sylwadau**

Yn dilyn adborth rydym wedi rhannu’r mesurydd yma a’r mesurydd RH3 yn fesuryddion ar wahân er mwyn rhoi mwy o eglurder. Yn y cyfnod yma (1/4/25 i 31/8/25), mae'r Gwasanaeth wedi cofrestru 8 achos / cais o waith anawdurdodedig, lle mae 2 achos wedi ei gau. Mae nifer yr achosion agored bellach yn 136, sy'n amlygu'r heriau o ymdrin â'r llwyth gwaith presennol wrth gydbwyso'r amser sydd ar gael ar gyfer elfennau o'r gwasanaeth sy'n ymwneud â denu ffioedd ac elfennau heb ffioedd. Rydym yn parhau gyda’r bwriad o gyflwyno newidiadau pellach i'r trefniadau llif gwaith yn y system swyddfa gefn, ac i sicrhau hyfforddiant staff i alluogi casglu'r wybodaeth angenrheidiol o ran adrodd yn llawn ar y ffeiliau agored o fewn cyfnodau amser penodedig. Er mwyn cynorthwyo’r Swyddogion Rheolaeth Adeiladu, bydd trafodaethau a threfniadau’n cael eu gwneud gyda’r uned cymorth technegol i ddarparu’r cymorth gweinyddol angenrheidiol i’r tîm e.e. agor a chau achosion yn y system. Rydym hefyd angen adolygu’r achosion sydd yn cael eu dangos yn agored ar hyn o bryd i gadarnhau os ydynt yn parhau yn agored a’i peidio – ond yn anffodus mae oedi anorfod wedi bod gyda hyn sgil salwch.



# Rheolaeth Adeiladu


## RH3 - Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

**Sylwadau**

Rhaid pwysleisio fod adeiladau peryglus yn cael eu gwneud yn saff o fewn 24 awr er mwyn diogelu'r cyhoedd. Yn y cyfnod ers addasu'r mesuryddion (1/4/25 i 31/8/25), mae'r Gwasanaeth wedi ymdrin â 10 achos o adeilad peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff o fewn 24 awr, gyda 3 achos wedi eu cau. Nid yw achosion adeiladau peryglus yn cael eu cau tan mae gwaith sydd angen ei wneud ar y safle wedi ei gwblhau. Felly, gyda'r 118 achos sydd yn parhau'n agored mae gweithred wedi bod gan y Gwasanaeth i wneud yr adeilad yn saff o ran diogelwch y cyhoedd, ond mae angen cwblhau gwaith ar y safle.
Rhaid nodi fod achosion yn gallu parhau'n agored pan fo'r adeilad wedi ei wneud yn saff a'r gwaith ar y safle wedi ei gwblhau, mewn achosion lle mae'r Gwasanaeth wedi gorfod cymryd camau i wneud gwaith a thalu amdano a hynny yn sgil camau cyfreithiol sydd eu hangen i adennill costau. Nodir hefyd ein bod angen adolygu'r achosion sydd yn cael eu dangos yn agored ar hyn o bryd i gadarnhau os ydynt yn parhau yn agored a'i peidio – ond yn anffodus mae oedi anorfod wedi bod gyda hyn sgil salwch.

## Achosion strwythurau peryglus




# Parcio

## P&GS1 - Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

### Sylwadau

Mae gennym gyfanswm o 9 Swyddog Gorfodaeth Parcio yn gweithredu ar draws y sir, gyda gwasanaeth yn weithredol dros 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cwynion yn ddyddiol am holl agweddau sy'n ymwneud â pharcio. Yn aml iawn, nid yw'n bosibl i'r gwasanaeth weithredu oherwydd diffyg pwerau neu gyfyngiadau parcio. Ar gyfer pwrpas yr ymarferiad hwn, mae'r graff isod yn cynnwys cwynion gan Aelodau Lleol a/neu aelodau'r cyhoedd am gerbydau wedi parcio'n anghyfreithlon ar gyfyngiadau parcio yn unig - felly roedd modd i'r swyddogion weithredu. Derbyniodd 71% o'r lleoliadau ymweliad o fewn 1 diwrnod, gyda phob lleoliadau yn derbyn ymweliad o fewn 3 diwrnod. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb i gwynion yn brydlon, er hyn, mae'n bosibl gall cyfnodau salwch neu absenoldebau eraill o fewn y tîm greu oedi. Nid oedd yn bosibl i'r Swyddogion orfodi mewn 12% o'r lleoliadau oherwydd nad oedd cyflwr y cyfyngiadau yn cyrraedd y safon sy'n caniatáu i orfodi'n gyfreithlon. Mae ceisiadau wedi eu trosglwyddo i Adran Briffyrdd y Cyngor ar gyfer ail baentio'r ffordd.




# Parcio

## P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Parcio

## P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

**Sylwadau**

Caiff dirwyon eu rhoddi i gerbydau sy'n parcio yn groes i'r cyfyngiadau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Mae'r gwasanaeth yn ymfalchïo yn y gallu i ymdrin â phawb mewn modd cyson, teg a thryloyw. Mae gan bob modurwr sy'n derbyn dirwy yr hawl i gyflwyno apêl petaent yn teimlo fod unrhyw annhegwch neu gamgymeriad wedi digwydd.

O'r cyfanswm 7,586 o docynnau sydd wedi eu cyflwyno gan y Cyngor, cyflwynwyd 1,527 o apeliadau (Ebrill - Awst 2025), cafodd 398 o'r rheini, sef 26% o'r apeliadau eu dileu. Mae 5.2% o'r holl docynnau sydd wedi eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma wedi eu dileu.

Ar wahân i sefyllfaoedd eithafol, mae'r mwyafrif o'r apeliadau llwyddiannus gan unigolion sydd wedi prynu tocyn yn y maes parcio ond heb dalu ac arddangos am amryw o wahanol resymau e.e. y tocyn wedi syrthio o'r golwg neu cwsmer wedi mewnbynnu un digid anghywir drwy ddefnyddio'r Ap Talu gyda ffon neu ddalwyr bathodynnau glas sydd wedi camddeall yr amodau. Caiff pob apêl ystyriaeth lawn a phetai tystiolaeth gadarn yn atgyfnerthu fod camgymeriad diffuant wedi digwydd, credir ei bod yn rhesymol i ddileu'r ddirwy. Gyda pherthnasedd i'r nifer apeliadau a drosglwyddwyd i'r beirniaid annibynnol am ystyriaeth, noder mai un achos yn unig a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod penodol dan sylw, a bod canlyniad yr achos hwn yn ffafriol i'r Cyngor.


Rydym wedi addasu'r mesur i gynnwys nifer cyfanswm y Rhybudd Talu Cosb (RhTC) sydd wedi eu cyflwyno er mwyn rhoi cyd-destun ehangach yn hytrach na dim ond y rhai sydd wedi eu hapelio sy'n llwyddiannus/aflwyddiannus fel yn flaenorol. Rydym hefyd wedi ychwanegu i nodi'r cyfanswm RhTC gan ddangos os ydynt 'ar stryd' ac 'oddi ar stryd' – gweler y mesur nesaf.


# Parcio

## P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Parcio

## P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

**Sylwadau**


Caiff ymdrech arbennig ei wneud gan Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor i sicrhau bod lefel briodol o fonitro'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn sicrhau bod llif traffig yn symud yn ddi-rwystr. Maent yn cymryd camau gorfodaeth briodol yn erbyn modurwyr sydd yn dewis parcio'n anghyfreithlon ar ddarnau o'r briffordd, gan gynnwys mannau parcio ble caniateir i barcio am gyfnod penodol ar y stryd. Caiff ymdrech hefyd ei roi tuag at fonitro ein meysydd parcio talu ac arddangos sydd yn cynhyrchu arian sylweddol i'r Cyngor. Mae'r graff yn amlygu bod 62% o'r Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd i fodurwyr rhwng Ebrill ac Awst 2025 am droseddau parcio ar y briffordd e.e. parcio ble mae cyfyngiadau parcio fel llinellau melyn sengl, dwbl, clirffordd, linell wen amddiffyn mynedfeydd, baeau parcio arhosiad cyfyngedig neu gamddefnyddio baeau anabl.

# Gwaith Stryd

## P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



# Gwaith Stryd

## P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

**Sylwadau**

Mae gweithiau a gyflawnir ar ein strydoedd neu ffyrdd yn rhan o fywyd dydd i ddydd, ac er iddynt achosi anhwylustod i aelodau'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, maent yn allweddol i ddarparu a chynnal gwasanaethau cyfleustodau a thrafnidiaeth. Mae archwilwyr stryd y gwasanaeth yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar rwydwaith y briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol neu gontractwyr, ac yn ymdrechu i osgoi sefyllfaoedd ble caiff ardaloedd eu haflonyddu am gyfnodau hir o ganlyniad i weithiau. Gosodir amodau penodol i geisio rheoli hyn, ac mewn rhai amgylchiadau ni roddir opsiwn i ymgymerwr allu ymestyn cyfnod. Er bod mwyafrif o'r gweithgareddau yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen wreiddiol, nid yw'n anghyffredin i redeg dros amser ar adegau am amryw o wahanol resymau e.e. dod ar draws rhywbeth annisgwyl ar ôl cychwyn tyllu'r ffordd, oedi oherwydd problemau staffio, dibynnu ar gwmnïau eraill, methu cael gafael ar yr offer neu gyfarpar priodol. Mae'r graff uchod yn cynnwys y data a ddalwyd am y canrannau o'r gweithiau bu redeg heibio'r amserlen wreiddiol yn ystod y cyfnod penodedig. Roedd lleihad yn y nifer o weithiau a ganiateir ar y briffordd yn ystod mis Awst oherwydd cyfnod embargo cenedlaethol yn ystod gwyliau'r haf.
*Mae'n bosibl bod sefyllfaoedd prin ble mae cwmniau wedi penderfynu cyflawni gweithiau heb hysbysu'r Gwasanaeth Gwaith Stryd - nid yw'r data yn cynnwys sefyllfaoedd o'r math yma."

# Traffig, Prosiectau a Llwybrau

## T&P1 - Nifer o ymholiadau sydd wedi derbyn ymateb

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Rheoli a cydlynu rhwydwaith priffyrdd pwrpasol a diogel ynghyd a datblygu a gwireddu prosiectau trafnidiaeth.

**Sylwadau**

Prif Faterion Traffig a Nodwyd:

• Cwynion am Or-yrru:
Mae nifer sylweddol o gwynion wedi dod i law ynghylch gor-yrru, yn enwedig mewn ardaloedd 20mya. Mae hyn yn parhau i fod yn bryder amlwg ymhlith trigolion.


• Ceisiadau am Fesurau Lleihau Cyflymder:
Mae cynnydd wedi bod yn nifer y ceisiadau i leihau cyflymder ar ffyrdd tu hwnt i'r ardaloedd 20mya a 30mya, gan adlewyrchu pryderon ehangach am ddiogelwch traffig.

• Gwaharddiadau Parcio:
Mae nifer y ceisiadau am waharddiadau parcio wedi gostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

• Ymholiadau Heb Ateb:
Roedd nifer uchel o ymholiadau heb eu hateb yn ystod mis Gorffennaf, ond mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol erbyn mis Awst.

• Gwybodaeth Gyhoeddus:
Rydym yn edrych ar ffyrdd o leihau nifer yr ymholiadau trwy wella'r wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan, yn enwedig mewn perthynas â materion traffig sy'n dod i'n sylw yn rheolaidd.

*Mesurydd newydd sy'n weithredol ers Mehefin 2025.



# Traffig, Prosiectau a Llwybrau


## T&P2 - Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad

**Sylwadau**

Mae'r mesurydd hwn yn weithredol ers mis Ebrill 2024, gyda'r bwriad o arddangos y gwaith sydd yn cael ei gyflawni i gynnal a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r strwythurau newydd sydd yn cael eu mewnosod ar lwybrau yn cynnwys gwelliannau megis giatiau newydd (i gymryd lle camfeydd), ac arwyddion i hwyluso defnydd. Yn ogystal mae'r nifer o weithrediadau i gynnal llwybrau yn cael eu hadrodd, mae'r rhain yn weithrediadau ar wahân ac yn ogystal â gwaith cynnal megis torri tyfiant arwyneb, gwella cyflwr arwyneb ac yn y blaen. Mae'r mesuryddion yma yn eu lle ers dros flwyddyn ac mae'r ystadegau yn parhau i ddangos amrywiaeth o fis i fis ar y ddau fesur. Yn anffodus bu problemau gyda meddalwedd casglu data yn ystod y cyfnod dan sylw felly mae posibilrwydd bydd hynny wedi effeithio'r data ond rydym yn hyderus fod y mater wedi ei ddatrys bellach.

Mae gwaith hefyd yn digwydd i ychwanegu mesurydd arall a fydd yn adrodd ar nifer defnyddwyr ar llwybrau Gobeithir gallu dechrau adrodd ar hyn yn fuan.



# Trafnidiaeth Cyhoeddus

## TC1 - Canran o siwrneiau bws lleol sydd yn cyrraedd ar amser (hyd at 1 munud un gynnar/5 munud yn hwyr)

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy

**Sylwadau**


Mae Cyngor Gwynedd drwy gyd-weithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru, wedi bod yn adolygu rhwydwaith bysus cyhoeddus yng Ngwynedd. Mae hyn wedi cael ei wneud ar sail ardal wrth ardal ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau bellach.

Bwriad yr adolygiad oedd:

- Optimeiddio adnoddau i wneud y cyfleoedd teithio yn fwy deniadol i'r cyhoedd (sy'n cynnwys cwsmeriaid newydd posib yn ogystal a'r rhai sydd eisoes yn teithio mewn ymdrech i wneud gwasanaethau yn gadarnhaol o ran yr amgylchedd ac yn ariannol gynaliadwy)
- Amserlenni hawdd i'w ddeall
- Darparu dull tocynnau mwy teg ledled Gwynedd

Mae hyn wedi arwain at, ar y cyfan, adborth cadarnhaol a chynnydd yn nifer y teithwyr sy'n argoeli'n dda ar gyfer hyfywdra a chynaladwyedd y gwasanaethau wrth symud ymlaen. Mae hyn mewn hinsawdd lle roedd niferoedd y teithwyr bws ar draws Cymru wedi bod yn gyson neu gostwng, gyda rhesymoli a chwtogi lefelau gwasanaethau bws wedi eu gweithredu mewn ardaloedd eraill o'r wlad. Un rhan o'r gwaith oedd edrych ar ar amserlenni a sicrhau fod amser digonol i'r bysiau deithio ar hyd y llwybr.

Oherwydd newid cytundebol yn y cwmni sy'n dal data amseroedd bysiau, nid oes mynediad i'r amseroedd prydlondeb ar hyn o bryd. Gan nad oes cytundeb rhwng y gweithredwyr a'r Llywodraeth am rannu'r data yma, nied oes gan y Cyngor fynediad i'r data prydlondeb ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i bwyso am fynediad i'r data gan fod hyn yn dystiolaeth bwysig i ni ar gyfer mesur perfformiad y gwasanaethau bws lleol.



# Trafnidiaeth Cyhoeddus

## TC2- Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu


**Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy


**Sylwadau**

Mae yna nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ddefnydd gwasanaethau bws yn gyffredinol. O gymharu mis wrth fis gall hyn gynnwys sawl penwythnos sydd mewn unrhyw un mis a hefyd y tywydd – yn enwedig yn ystod penwythnosau, gŵyl y banc a cyfnodau brig arall. Mae nifer y dysgwyr sydd yn talu i deithio ar fysiau cyhoeddus hefyd yn newid a cael dylanwad.

Mae proffil y nifer teithwyr sy'n talu a'r nifer sy'n defnyddio tocyn teithio hefyd yn newid. Wrth symud ymhellach o gyfnod COVID mae'n bosib fod fwy o deiliad tocynnau teithio yn dychwelyd i deithio ar y bysiau yn fwy rheolaidd.

Mae ffigyrau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg ar ran Cyngor Gwynedd gyda cyfran o arian grant yn dangos perfformiad cadarnhaol a chynnydd yn nifer y siwrneiau yn y flwyddyn ddiwethaf. O gymharu gyda mis Awst y llynedd, mae gwasanaethau bws y Sherpa wedi gweld cynnydd o dros 15% o siwrneiau a chyfanswm o 83,393 yn ystod Awst 2025. Mae gwasanaeth newydd y G23 sy'n rhedeg ar drywydd Abermaw – Harlech – Porthmadog hefyd wedi dangos cynnydd o 12%, gyda 9,059 o siwrneiau ym mis Awst 2025.




# Busnes - Swyddfa Cefn

## B1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

**Sylwadau**

Mae cynnydd calonogol wedi ei weld gan y tîm sy’n ymwneud efo Pridiannau Tir, gyda’r amser cyfartalog i brosesu ceisiadau wedi sefydlogi yn dilyn cyfnod heriol. Cydnabyddir fod y sefyllfa wedi bod yn heriol gyda chwiliadau wedi bod yn cymryd mwy o amser nag y byddem yn dymuno i'n cwsmeriaid yn y gorffennol. Roedd hyn oherwydd cynnydd yn y galw am y gwasanaeth, yn ogystal â gwaith yn ymwneud â throsglwyddo data i system swyddfa genedlaethol, gyda Gwynedd ymhlith y Cynghorau cyntaf yng Nghymru. Yn ychwanegol i hyn, er mwyn cyflawni chwiliadau, mae angen cyswllt ac ymateb gan nifer o wasanaethau ac adrannau eraill, ac yn ddibynnol ar leoliad y chwiliad, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd, sydd i gyd a’u heriau penodol eu hunain.
Er hyn, rhagwelir llithriad posib am gyfnod yn sgil materion capasiti oherwydd absenoldebau hir dymor. Bydd y trosglwyddo i’r system genedlaethol yn mynd yn fyw mis Chwefror 2026, ac mae peth ansicrwydd am union sgil-effaith hynny. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd a defnyddio adnodd o fewn yr Uned Busnes i gynorthwyo'r Uned Pridiannau Tir lle posib a phan fydd yr angen.




# Busnes - Swyddfa Cefn

## B2 - Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cefnogi swyddogion Gwarchod y Cyhoedd, drwy darparu gwasanaeth rheng flaen i ymholiadau cwsmeriaid

### Sylwadau

Gwelwyd llithriad yn y canran atebwyd yn hanner cyntaf 2024/5 oherwydd ein bod wedi gweithredu a chyflawni cynllun arbedion o leihau strwythur y tîm o 4 i 3 a'r trydydd swyddog wedi derbyn swydd newydd sy'n golygu bod y tîm wedi bod lawr i ddwy aelod, ac ar adegau un oherwydd absenoldeb. Buom yn llwyddiannus yn penodi aelod newydd i'r tîm ddechrau Chwefror 2025, ac mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar ein canran ateb galwadau ers hynny, gyda chyfnod hyfforddiant pellach wedi ei ddarparu.



# Monitro Cyllid


## MC - Cyfanswm Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus (Data Rheolaethol)

**Pwrpas y Gwasanaeth:** Cefnogi Gwasanaethau ar draws yr Adran ar faterion monitro cyllid, prosesau caffael a phryun'n ddoeth a systemau TG

### Sylwadau

Un o'r elfennau mae'r Adran yn rhagori ynddo yw denu grantiau ar gyfer cynlluniau gwelliant ar ein rhwydwaith ffyrdd, llwybrau a'r rhwydwaith 'teithio llesol' aml-ddefnydd, gwaith adweithiol i warchod bywyd gwyllt a'r tirweddau, gwella Hawliau Tramwy, datblygu a chynnal llwybrau arfordir, gwella ansawdd a chyflwr ardaloedd AHNE; rhwydwaith lonydd las; Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llyn a'r Sarnau; Ecosystemau Morol; a Thirlun Llŷn. Mae'r Adran yn draddodiadol wedi bod yn llwyddiannus mewn denu grantiau ar gyfer cynlluniau fel gwelliannau ffyrdd a phontydd; llwybrau beicio a llwybrau diogel o fewn ein cymunedau, cynnal a datblygu llwybrau cerdded, beicio a marchogaeth yn ogystal â chadwraeth a diogelu rhywogaethau a thirlun.

### Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus 2025/2026



# (HD) Perfformiad Hyfforddiant Diogelu: Adran Amgylchedd

Mae cyfres o hyfforddiant mandadol sy'n flaenoriaeth corfforaethol y mae'n ofynnol i staff y Cyngor eu cwblhau.

Fel Adran, mae negeseuon cyson wedi eu rhannu gyda swyddogion yr Adran i amlygu pwysigrwydd cwblhau'r hyfforddiant mandadol.

Yn unol â chais y Panel Strategol Diogelu, mae'r isod yn amlinellu y sefyllfa diweddaraf o ran perfformiad staff swyddfa yr Adran Amgylchedd o ran hyfforddiant **'Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol' (VAWDASV)** a **'Diogelu'**.

Mae **99% o staff swyddfa'r Adran wedi cwblhau'r hyfforddiant Trais a Cham-drin yn Erbyn Merched (VAWDASV)**, gydag un o'r ddau unigolyn sydd heb gwblhau eto yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd.

Mae **94% o staff swyddfa'r Adran wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu**, gyda dau o blith yr 11 aelod o staff sydd heb gwblhau hyd yma, yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd.

Byddwn yn parhau i annog gweddill yr aelodau staff i flaenoriaethu cwblhau'r hyfforddiant cyn gynted a phosib.

Oherwydd natur gwaith rhai Gwasanaethau'r Adran, nid oes gan aelodau o staff rheng-flaen fynediad i gyfrifiadur yn rhinwedd eu swydd er mwyn gallu cwblhau hyfforddiant trwy'r porth hyfforddi.

Mae hyn yn berthnasol yn bennaf i'r gweithlu Casglu a Thrin Gwastraff. Ar hyn o bryd, rydym yn trafod y ffordd orau i sicrhau bod y 214 o unigolion hyn yn gallu derbyn yr hyfforddiant gofynnol. Mae'n debygol y bydd angen darparu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb, ac rydym yn disgwyl arweiniad pellach gan Adnoddau Dynol ynghylch y camau nesaf.